# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)04-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 5 Chwefror 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carl Sargeant, Prif Chwip

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn Bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Mandy Lewis, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a hysbysiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Arweinydd y Tŷ a chan

Marion Stapleton. Croesawodd y Cadeirydd Carl Sargeant a Mandy Lewis a fyddai'n eu cynrychioli.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**(i) BC(3)03-08 (Cofnodion drafft) - dydd Mawrth 29 Ionawr 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

**3. Busnes i Ddod**
**Busnes yr Wythnos hon - BC(3)04-08(p1)**

3.1 Dywedodd Carl Sargeant y byddai'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad ar yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, Dywedodd y byddai hwn yn cymryd lle'r datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar Agenda ar gyfer Newid, a fyddai'n cael ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig ar 6 Chwefror 2008.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gyflwyno ddydd Mercher, i ddwyn ymlaen gynnig i newid aelodaeth y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

3.3 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn digwydd dim cynt na 5pm ar ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

3.4 Nododd y Pwyllgor drefniant busnes ar gyfer 5 a 6 Chwefror 2008.

Amserlen 3 wythnos ar gyfer busnes y Llywodraeth - BC(3)17-07(p2)

3.5 Nododd y Pwyllgor yr amserlen 3 wythnos ar gyfer busnes y Llywodraeth.

Amserlen 3 wythnos ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth - BC(3)03-08(p3)

3.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes y caiff y ddadl ar Adroddiadau'r Pwyllgor Cyllid a'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Glwy'r Traed a'r Genau ei threfnu ar gyfer dydd Mercher, 20fed Chwefror. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai un ddadl 90 munud gynnwys y ddau adroddiad. Cytunwyd y byddai dau gynnig

i'w nodi yn cael eu cyflwyno, (un gan bob pwyllgor), y byddent yn cael eu trafod gyda'i gilydd ond y byddai pleidleisio ar wahân ar y

ddau adroddiad. Cytunwyd hefyd y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid agor a chau'r ddadl, ac y dylai Cadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig fod yr ail siaradwr.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor y caiff y ddadl ar Adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Dwbercwlosis mewn Gwartheg ei threfnu ar gyfer 27ain Chwefror.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4 Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Adolygiad o effeithiolrwydd a gweithrediad Pwyllgorau'r Cynulliad - BC(3)04-08(p4)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes gylch gorchwyl arfaethedig ar gyfer yr adolygiad o effeithiolrwydd a gweithrediad Pwyllgorau'r Cynulliad. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adolygiad yn cael ei arwain gan Bennaeth y Gwasanaeth Pwyllgorau ac y byddai'r canlyniadau'n cael eu nodi wrth y Pwyllgor Busnes maes o lawr.

**5. Unrhyw Fater Arall**

5.1 Trafododd y Rheolwyr Busnes amseru dadleuon y gwrthbleidiau mewn amser heblaw amser y llywodraeth. Cytunwyd y dylai o leiaf un awr gael ei neilltuo i ddadleuon y gwrthbleidiau ym mhob wythnos yr oedd y Cynulliad yn cyfarfod mewn Sesiwn Lawn.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i edrych ar gategorïau busnes heblaw busnes y llywodraeth, i ymchwilio i opsiynau ar gyfer neilltuo amser i Aelodau'r Cynulliad nad oeddent yn aelodau o'r Llywodraeth.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**